



Gwasanaeth Effeithiolrwydd a  
Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru

Regional School Effectiveness &  
Improvement Service for North Wales

# Bwletin GwE

## Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru – Enwebiadau ar Agor Nawr!

Mae Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru yn cael eu cynnal eto yn 2019!

Os ydych yn athro, athrawes, myfyriwr, rhiant, cyflogwr neu gyd-weithiwr ac yn gwybod am rywun sy'n haeddu Gwobr Addysgu Proffesiynol, mae gennych tan **hanner nos ar 30 Tachwedd 2018** i enwebu ar-lein [yma](#).

Am ragor o fanylion, dilynwch y [ddolen hon](#).

## Gwobrau Estyn i Gydnabod Rhagoriaeth mewn Addysg a Hyfforddiant ★NEWYDD★

Mae ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill yng Nghymru wedi cael eu cydnabod gan Estyn am eu rhagoriaeth mewn noson wobrwyo. Derbyniodd staff yn y sefydliadau hyn dystysgrif a chael eu llongyfarch gan Meilyr Rowlands, y Prif Arolygydd a Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg mewn seremoni a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2018.

Llongyfarchiadau i'r canlynol o ranbarth GwE:

<b>Ynys Môn</b>	Ysgol Llanfair Pwllgwyngyll, Ysgol Gymuned Rhosybol
<b>Gwynedd</b>	Meithrinfa Seren Fach, Ysgol Cefn Coch
<b>Conwy</b>	Ysgol Bro Gwydir, Ysgol y Gogarth
<b>Sir Ddinbych</b>	Awdurdod Lleol Sir Ddinbych
<b>Sir y Fflint</b>	Ysgol Gwenffrwd, Ysgol yr Esgob
<b>Wrecsam</b>	Ysgol Heulfan

## Cynnig GwE ar G6

Fel y gwyddoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [\[https://g6.gwegogledd.cymru\]](https://g6.gwegogledd.cymru).

**Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.**

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

HYFFORDDIANT	DYDDIAD	LLEOLIAD
Ysgolion sy'n wybodus am drawma [dwyieithog]	08/11/2018 21/11/2018	Y Galeri, Caernarfon <b>DYDDIAD NEWYDD</b> Tŷ Menai, Bangor
Google Classroom [Saesneg]	18/10/2018 19/10/2018 23/10/2018	Faenol Fawr, Bodelwyddan Pafiliwn Llangollen GwE, Linden House, Yr Wyddgrug
Mathemateg: Gwella Cynnydd gyda Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 [Cyfrwng Cymraeg]	19/10/2018	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno
Cyfarfod Tymor yr Hydref Rhwydwaith Arweinwyr Pwnc Gwyddoniaeth Uwchradd	19/10/2018	Venue Cymru, Llandudno
Addysgu Saesneg Effeithiol – “Tools and Habits of Effective English Teaching”	22/10/2018	GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Rhaglen Ddatblygu i Arweinwyr Rhifedd	24/10/2018	OpTIC, Llanelwy
Rhaglen Ddatblygu i Arweinwyr Llythrennedd	24/10/2018	Lleoliad i'w gadarnhau.
Arweinwyr ar gyfer y Dyfodol (Uwchradd) [Carfan 2]	24/10/2018	Gwesty'r Oriol, Llanelwy
Uwchradd: Deall amrywiad mewn ysgol	24/10/2018	GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn [Sesiwn bore a phrynhawn]
Defnyddio Systemau Tracio a Thargeddu yn effeithiol	17/10/2018 18/10/2018	Canolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog [Sesiwn bore a phrynhawn] Neuadd y Sir, Rhuthun [Sesiwn bore a phrynhawn]
Diweddariad G6 ar gyfer Penaethiaid ac Uwch Arweinwyr	23/10/2018 25/10/2018	GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn [Sesiwn Prynhawn] GwE, Linden House, Yr Wyddgrug [Sesiwn bore]
Cracio'r Cod – Cynradd [Cymraeg – Caernarfon]	23/10/2018	GwE, Penrallt, Caernarfon <b>★NEWYDD★</b>
Cracio'r Cod – Uwchradd [Dwyieithog – Llanelwy]	25/10/2018	OpTIC, Llanelwy <b>★NEWYDD★</b>

## Parcio yn Swyddfeydd GwE **★NEWYDD★**

Ydych chi'n mynychu hyfforddiant / cyfarfodydd yn un o swyddfeydd GwE?

Gan mai dim ond nifer cyfyngedig o lefydd parcio sydd ar gael i ymwelwyr ym mhob un o'n swyddfeydd, rydym wedi creu map ar gyfer y tair swyddfa sydd yn nodi yn union ble cewch barcio. Gofynnwn yn garedig i chi barcio yn y llefydd a nodir ar y map, neu fel arall gwneud trefniadau teithio eraill. Mae'r mapiau ar gael ar ein gwefan ar y dudalen 'Cysylltwch â Ni': <https://www.gwegogledd.cymru/index.php/cysylltwch-a-ni/>

Er hwylustod, gweler ddolen at bob map isod:

[Penrallt, Caernarfon](#)

[Bryn Eirias, Bae Colwyn](#)

[Linden House, Yr Wyddgrug](#)

## Cyfleoedd gyda GwE

### [Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant – STEM \[Uwchradd\]\[Llawn Amser\]](#) **★NEWYDD★**

SECONDIAD NEU GYTUNDEB DROS DRO AM FLWYDDYN YN Y LLE CYNTAF GYDA PHOSIBILRWYDD O'I YMESTYN AM 2 / 4 BLYNEDD

[HYSBYSEB SWYDD – YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT – STEM \[UWCHRADD\]\[LLAWN AMSER\]](#)

[SWYDD DDISGRIFIAD – YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT – STEM \[UWCHRADD\]\[LLAWN AMSER\]](#)

Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr gan gynnwys CV erbyn **10:00YB, DYDD IAU, 8 TACHWEDD 2018** at

[anwengwilym@gwegogledd.cymru](mailto:anwengwilym@gwegogledd.cymru)

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch ag Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar 0300 500 8087 neu anfon e-bost at [alwynjones@gwegogledd.cymru](mailto:alwynjones@gwegogledd.cymru)

### [Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant – Arweinydd ADY – Trawsnewid](#) **★NEWYDD★**

SWYDD LLAWN AMSER – AIL HYSBYSEB

[HYSBYSEB SWYDD – YCG – ARWEINYDD ADY TRAWSNEWID \[AIL HYSBYSEB\]](#)

[SWYDD DDISGRIFIAD – YCG – ARWEINYDD ADY TRAWSNEWID](#)

Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr erbyn **10:00yb, Dydd Iau, 8 Tachwedd 2018** i [sionwynevans@gwegogledd.cymru](mailto:sionwynevans@gwegogledd.cymru)

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Margaret Davies, Arweinydd Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol Rhanbarth y Gogledd ar [01824] 708031 neu anfon e-bost i [margaret.davies@denbighshire.gov.uk](mailto:margaret.davies@denbighshire.gov.uk)

### [Swyddog Cyllid Cefnogol \[Dros Dro hyd at 31/08/2019\]](#)

SWYDD LLAWN AMSER OND YSTYRIR CEISIADAU AM WNEUD Y SWYDD YN RHAN AMSER

**Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.**

**HYSBYSEB SWYDD – SWYDDOG CYLLID CEFNOGOL [DROS DRO]**

**DYDDIAD CAU: 10:00YB, DYDD IAU, 25 HYDREF 2018**

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â Sion Wyn Evans, Rheolwr Busnes GwE [dros dro] ar **0300 500 8087** neu e-bost at **[SionWynEvans@gwegogledd.cymru](mailto:SionWynEvans@gwegogledd.cymru)**

Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais ewch i **[www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk)** neu cysylltwch â 01286 679076.

## Cwricwlwm i Gymru

### **Agweddau Hanfodol i'w Hystyried ar Genhadaeth Ein Cenedl ★NEWYDD★**

**Yma**, ceir llyfryn sydd yn cynnig arweiniad yr holl agweddau Hanfodol i'w Hystyried ar Genhadaeth Ein Cenedl.

### **Cyflwyniadau yr Athro Mick Waters ★NEWYDD★**

Am gopi o gyflwyniadau o sesiynau Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth gyda'r Athro Mick Waters, **cliciwch yma**.

## Cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol

### **Cyfoethogi Mathemateg i Bawb [NRICH] – Cynradd ★NEWYDD★**

[AIL REDEG HYFFORDDIANT HAF 2018]

**DYDD MAWRTH, 4 RHAGFYR 2018 – 9:00YB-3:30YP – VENUE CYMRU, LLANDUDNO**

Bydd y rhaglen hon yn rhoi cyfle i athrawon CA2 gydweithio ar ystod o dasgau cyfoethog o wefan NRICH, ac edrych ar sut y gellir eu defnyddio gyda phob dysgwr i ddatblygu ffyrdd o weithio'n fathemategol. Ceir rhagor o fanylion **yma**.

**Cofrestrwch drwy G6.**

### **Gwella Ansawdd y Ddarpariaeth mewn Rhifedd ★NEWYDD★**

**HYFFORDDIANT SAFMEDS I ATHRAWON A CHYMORTHYDDION DYSGU**

Mae SAFMEDS (*Say All Fast Minute Every Day Shuffled*) yn strategaeth addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ddatblygwyd gan arbenigwyr i gymhwyso gwyddorau dysgu at addysg. Am ragor o fanylion, **cliciwch yma**.

**Cofrestrwch drwy G6.**

### **Diweddariad G6 ar gyfer Penaethiaid ac Uwch Arweinwyr**

Bydd y sesiwn yn rhoi cyfle i Benaethiaid Newydd / Dros dro ddod i adnabod system G6.

Gall Penaethiaid presennol ac Uwch Arweinwyr hefyd fynychu os ydynt am ddiweddarau eu gwymbodaeth am y system G6.

**Cofrestrwch drwy G6.**

### **'DigiMeet Wrecsam'**

**DYDD MAWRTH, 13 TACHWEDD 2018 – 16:00-18:00 – BWYTY 1887, PRIFYSGOL GLYNDŴR**

P'un a ydych chi'n hoffi dyfeisiau neu'n byw yn oes yr arth a'r blaidd, bydd gan *DigiMeet* rywbeth i'w gynnig i bawb!

**Cliciwch yma** am ragor o fanylion.

**Cofrestrwch drwy G6.**

### **Gweithdai y Cyfnod Sylfaen**

**Yma** cewch fanylion am y gweithdai y mae GwE yn eu cynnal ar gyfer Athrawon a Chymorthyddion Dosbarth y Cyfnod Sylfaen trwy gydol y flwyddyn. **Cofrestrwch drwy G6.**

## Hyfforddiant Cynradd

### **DYDDIAD I'R DYDDIADUR**

**DYDD IAU, 20 TACHWEDD 2018 – GWESTY FAENOL FAWR, BODELWYDDAN**

Diwrnod gyda Hywel Roberts, awdur y llyfr '*Adventures in Learning*'.

Digwyddiad diwrnod cyfan i athrawon Cynradd.

**Rhagor o fanylion i ddilyn!**

# Hyfforddiant Uwchradd

## Addysgu Mathemateg TGAU

DATBLYGIAD PROFFESIYNOL I ATHRAWON MATHEMATEG CA3 A CA4

Mae GwE yn cynnig cyllid llawn i aelodau cymwys, yn amodol ar bresenoldeb llawn.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion neu cysylltwch â [delythellis@gwegogledd.cymru](mailto:delythellis@gwegogledd.cymru)

## Cyfarfodydd Tymor yr Hydref i Gydlynwyr Rhifedd Uwchradd

Ceir copi o raglen y dydd [yma](#). MAE'N RHAID ARCHEBU LLE GAN DDEFNYDDIO [EVENTBRITE](#), AC ANFON UNRHYW ANGHENION DIATEGOL AT [delythellis@gwegogledd.cymru](mailto:delythellis@gwegogledd.cymru)

# Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

## Creadigrwydd yn y Cyfnod Sylfaen ★NEWYDD★

HYFFORDDIANT AM DDIM GAN EDAU

Linc i gofrestru isod:

[22/10/2018 – Faenol Fawr, Bodelwyddan \[Cyfrwng Saesneg\]](#)

[23/10/2018 – Tŷ Pawb, Wrecsam \[Cyfrwng Saesneg\]](#)

## Mantell yr Arbenigwr [Ysgolion Cynradd] ★NEWYDD★

26 HYDREF 2018 – YSGOL CAE'R NANT, CEI CONNAH

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Anfonwch eich datganiad o ddiddordeb at [karen.roberts@ycn.flintshire.sch.uk](mailto:karen.roberts@ycn.flintshire.sch.uk)

## 2 Gynhadledd gan Brifysgol Bangor:

### Y Gymraeg mewn Addysg a Dwyieithrwydd

DYDD GWENER, 9 TACHWEDD 2018 – CYFRWNG CYMRAEG AR GYFER YSGOLION CYMRAEG/DWYIEITHOG – Tŷ MENAI, BANGOR

DYDD IAU, 22 TACHWEDD 2018 – CYFRWNG SAESNEG AR GYFER YSGOLION SAESNEG – GWESTY BEAUFORT PARK, YR WYDDGRUG

Cofrestrwch drwy G6.

## Cynhadledd Flynyddol Genedlaethol Penaethiaid – Lansio Model Cenedlaethol Cymru ar gyfer Dysgu Proffesiynol

DYDD IAU, 15 TACHWEDD 2018 – PRIFYSGOL BANGOR

Bydd y gynhadledd yn canolbwyntio ar y Model Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol newydd, a beth y mae'n ei olygu ar gyfer penaethiaid ac athrawon ar draws Cymru.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion. I gofrestru, dilynwch y [ddolen hon](#).

## Hyfforddiant Porth Rheoli Defnyddiwr Hwb

DYDD MAWRTH, 23 HYDREF 2018 – GLASDIR, LLANRWST – 1:00YP-3:30YP

Cynhelir sesiwn yng Nghanolfan Glasdir, Llanrwst, gan dîm Hwb ar gyfer pencampwyr digidol neu reolwyr rhwydwaith ysgolion. Dyma gyfle gwych i ddysgu rhagor am sut i weinyddu'r porth rheoli defnyddwyr newydd.

[Cliciwch yma](#) i gofrestru.

## Diogelwch Ar-lein yn Fyw 'Online Safety Live'

Mae Canolfan Rhyngwyd Mwy Diogel y DU yn cynnig hyfforddiant am ddim yn y rhanbarth.

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth ac i gofrestru.

## Cwrs Sabothol Cymraeg

AR GYFER ATHRAWON CYNRADD CYMRAEG AIL IAITH [YSGOLION SAESNEG]

Cwrs i athrawon sy'n siarad dipyn bach o Gymraeg yn barod, ac sydd eisiau defnyddio mwy o Gymraeg yn yr ysgol.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

DYDDIAD CAU ANFON CEISIADAU: 12 TACHWEDD 2018

# Swyddi gydag Eraill

## Uwch Reolwr – Gwella Ysgolion [Sir y Fflint] ★NEWYDD★

Mae manylion llawn y swydd hon ar gael ar [wefan Cyngor Sir y Fflint](#).

**DYDDIAD CAU: DYDD GWENER, 9 TACHWEDD 2018**

Am sgwrs anffurfiol gyda Claire Homard, y Prif Swyddog cysylltwch ag Amanda Davidson ar 01352 704601 neu anfon e-bost at [Amanda.davidson@flintshire.gov.uk](mailto:Amanda.davidson@flintshire.gov.uk)

# Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

## Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig ★NEWYDD★

[Cliciwch yma](#) am gopi o'r daflen sydd yn hysbysu eu cystadleuaeth ar gyfer eleni.

## Categori Cenedlaethol 2018-2019

Bydd Categori Cenedlaethol yn parhau ar gyfer 2018-2019. Mae'r [canllawiau atodol](#) yn rhoi cyngor i ysgolion, consortia ac ymgynghorwyr cefnogi gwelliant ar y ffordd y dylid cymhwysu'r dyfarniad, mewn perthynas â'r gallu i wella a'r penderfyniad mewn perthynas â'r categori cymorth, mewn achosion lle y gall fod angen ystyried ffactorau cyd-destunol a ffactorau eraill.

[Cliciwch yma](#) i weld yr amserlen.

**Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter**

[GwEGogledd.Cymru](http://GwEGogledd.Cymru)

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan

Rydym wedi diweddarau ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi [yma](#). Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanygrifio drwy gysylltu â [bwletin@gwegogledd.cymru](mailto:bwletin@gwegogledd.cymru) yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.

